Asesu drwy gyfrwng y Gymraeg

Canllawiau

Caniateir i bob myfyriwr gyflwyno'i aseiniadau a sefyll ei arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond rhaid i'r myfyriwr roi gwybod i'r Brifysgol ei fod am wneud hynny pan fydd yn cofrestru.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i diwtor sy'n siarad Cymraeg yn y maes pwnc hwnnw i farcio'r aseiniad a rhoi adborth yn Gymraeg, ond lle nad yw hynny'n bosibl, defnyddir cyfieithydd sy'n arbenigo yn y pwnc. Lle caiff asesiad ei gyfieithu, bydd rhywfaint o oedi'n debygol o ran rhoi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad.

Lle rhoddir adborth ar asesiad, os nad yw'r aseswr yn siarad Cymraeg, bydd y myfyriwr yn cael ei adborth yn Saesneg.

Os yw myfyriwr y Brifysgol Agored yn dymuno apelio yn erbyn marc a gafwyd am aseiniad, fel arfer bydd ganddo 28 diwrnod i wneud hynny o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod iddo am y penderfyniad. Nodir y dyddiad hwn ar y ffurflen PT3. Os mai hwn yw'r Aseiniad terfynol wedi'i Farcio gan Diwtor ar y cwrs, cwtogir y cyfnod apelio i 14 diwrnod.
Os yw myfyriwr wedi cyflwyno ei waith yn Gymraeg, caiff y cyfnodau apelio hyn eu hymestyn i 30 diwrnod a 15 diwrnod yn y drefn honno i ganiatáu am yr amser cyfieithu.

Rhaid i bob myfyriwr sy'n cyflwyno ei waith drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn ymwybodol y gall ei waith gael ei gyfieithu yn hytrach na'i farcio gan siaradwr Cymraeg arall.